**Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
The National Library of Wales

# LLAWYSGRIFAU MANUSCRIPTS

LLGC NLW



Nodde gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Llyfr Oriau De Grey** The De Grey Hours, **NLW MS 15537C**, f. 33v (odg00069)

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales

# LLAWYSGRIFAU

## CYFLWYNIAD CYFFREDINOL

Mae gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru rai miloedd o lawysgrifau sy'n ffurfio'r casgliad mwyaf a phwysicaf o lawysgrifau Cymraeg a Chymreig yn y byd.

Er mai cnewyllyn y casgliad yw deunyddiau Cymreig, ceir ynddo hefyd nifer fawr o eitemau nad ydynt yn dal cyswllt â Chymru.

Mae yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru oddeutu 25,000 o lawysgrifau:

- yr hynaf yn dyddio o 113 O.C. (NLW MS 4738D)
- y diweddaraf yn dyddio o'r flwyddyn 2004 (NLW MS 23933D)

## BETH YW LLAWYSGRIF?

Cyfrol wedi ei hysgrifennu â llaw, neu gasgliad o ddogfennau wedi eu dwyn ynghyd i ffurfio cyfrol yw llawysgrif fel arfer. Mae llawysgrifau yn cael eu cadw ar wahân i gasgliadau archifau'r Llyfrgell, er bod y berthynas rhyngddynt yn agos.

Ysgrifennwyd llawysgrifau'r Llyfrgell ar bapur, memrwn, papyri, dail, llechi ac amryfal gyfryngau eraill. Mae gennym hefyd enghreifftiau o lawysgrifau mewn amryw o wahanol ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Saesneg, Lladin, Ffrangeg a Chernyweg.

# MANUSCRIPTS

## GENERAL INTRODUCTION

The National Library of Wales has thousands of manuscripts, which form the biggest and most important collection of Welsh manuscripts in the world.

Although Welsh items form the heart of the collection, it also includes many items that have no connection with Wales.

There are approximately 25,000 manuscripts in The National Library of Wales:

- The oldest dates from 113 A.D. (NLW MS 4738D)
- The latest dates from the year 2004 (NLW MS 23933D)

## WHAT IS A MANUSCRIPT?

A manuscript is usually a volume written by hand, or a collection of documents brought together to form a volume. Manuscripts are kept separately from the Library's archive collections, although the relationship between them is close.

The Library's manuscripts are written on paper, parchment, papyri, leaves, slate and various other media. We also have examples of manuscripts in various languages, including Welsh, English, Latin, French and Cornish.

Mae yn y Llyfrgell 2 brif ddosbarth o lawysgrifau, sef:

- Casgliadau llawysgrif cyffredinol
- Casgliadau llawysgrifau arbennig:
  - Peniarth
  - Cwrtmawr
  - Llanstephan

There are 2 main classes of manuscripts in the Library, namely:

- General manuscript collections
- Special manuscript collections
  - Peniarth
  - Cwrtmawr
  - Llanstephan



Leisure

What is this life if, full of care,
We have no time to stand and stare.

No time to stand beneath the boughs
And stare as long as sheep or cows.

No time to see, when woods we pass,
Where squirrels hide their nuts in grass.

No time to see, in broad daylight,
Streams full of stars, like skies at night.

No time to turn at Beauty's glances,
And watch her feet, how they can dance.

No time to wait till her mouth can
Enrich that smile her eyes began.

A poor life this if, full of care,
We have no time to stand and stare.

May 8th 1914 W. H. Davies.

Leisure gan/by W.H. Davies NLW MS 23960B

Llyfrgell Genedlaethol Cymru
The National Library of Wales

## SUT MAE EU CANFOD?

Bellach, catalogir holl dderbynion llawysgrif newydd y Llyfrgell yn electronig, ac mae mwy a mwy o'r disgrifiadau blaenorol yn cael eu hychwanegu at y gronfa, a'u hadolygu.

Gellir cael mynediad arlein i'r llawysgrifau hynny sydd wedi eu catalogio drwy chwilio ar gatalog cyflawn y Llyfrgell:
**http://cat.llgc.org.uk/**
neu gatalog ar gyfer Archifau a Llawysgrifau sydd heb gyrraedd y catalog cyflawn:
**http://isys.llgc.org.uk/.**

Gellir chwilio am enwau, pynciau ac enwau lleoedd, ynghyd â chwilio testun rhydd. Gellir hefyd bori yn yr ystafell ddarllen mewn disgrifiadau cynnar a gyhoeddwyd mewn nifer o wahanol gatalogau papur.

## YMHLE GELLIR DARLLEN LLAWYSGRIFAU?

Wedi sicrhau tocyn darllen, darllenir llawysgrifau yn Ystafell Ddarllen y De yn y Llyfrgell. Mae yno gyfarpar arbennig, megis lamp uwch-fioled, i hwyluso'r gwaith o astudio'r deunydd cynharaf, yn ogystal â chyfeirlyfrau hwylus y gellir ymgynghori â hwy wrth ymchwilio.

Cyfyngir mynediad at rai llawysgrifau oherwydd eu hoed a'u cyflwr, a darperir copïau dirprwyol (digidol neu ficroffilm) ohonynt ar gyfer darllenwyr.

## HOW TO FIND THEM?

By now all the Library's new manuscript acquisitions are catalogued electronically, and more and more previous descriptions are being added to the database, and reviewed.

Access to those manuscripts which have been catalogued is available online by searching the Library's full catalogue:
**http://cat.llgc.org.uk/**, or the catalogue for Archives and Manuscripts not yet included in the full catalogue: **http://isys.llgc.org.uk/.**

It is possible to search for names, subjects and place-names, and free text searches can also be made. Also, in the reading room, you may browse early descriptions published in a number of different paper catalogues

## WHERE CAN YOU READ THE MANUSCRIPTS?

After you have secured your reader's ticket, manuscripts are read in the South Reading Room in the Library. There you will find special equipment, such as an ultra-violet lamp, to facilitate the work of studying the earliest material, along with convenient reference books that you may refer to whilst researching.

Access to some manuscripts is restricted because of their age and condition, and surrogate copies (digital or microfilm) are provided for readers.

## CASGLIADAU LLAWYSGRIF CYFFREDINOL

Ceir 3 cyfres gyffredinol o lawysgrifau yn y Llyfrgell, sef:

- Cyfres Llawysgrifau NLW
- Cyfres Llawysgrifau NLW ex
- Rholiau NLW

## CYFRES LLAWYSGRIFAU NLW

Cyfres benagored o lawysgrifau yw hon a dderbynnir fel rhodd neu bwrcasiad. Maent fel arfer yn gyfrolau neu'n rholiau, neu'n ddeunydd heb ei rwymo y gellir ei rwymo neu ei ffeilio, sydd heb fod yn rhan o archif neu gasgliad.

Gellir dod o hyd i'r rhan fwyaf o lawysgrifau llenyddol, hanesyddol a hynafiaethol y Llyfrgell ymhlith cyfres Llawysgrifau NLW.

Ymysg y llawysgrifau cynnar mae:

- Llawysgrif Hendregadredd (NLW MS 6680B)
- Llyfr Oriau De Grey (NLW MS 15537C)
- Piers Plowman (NLW MS 733B)
- Beunans Ke (NLW MS 23849D

Ymysg y llawysgrifau mwy diweddar mae:

- Llythyr yn llaw Ann Griffiths (NLW MS 694D)
- Map Dylan Thomas o Lareggub (NLW MS 23949E)

Ymgorfforwyd llawer o gasgliadau nodedig yng nghyfres Llawysgrifau NLW, gan gynnwys rhai:

- Panton (NLW MSS 1970–2068)

## GENERAL MANUSCRIPT COLLECTIONS

There are 3 general series of manuscripts in the Library, namely:

- NLW Manuscript series
- NLW ex series of Manuscripts
- NLW Rolls

## NLW MANUSCRIPT SERIES

This is an open-ended series of manuscripts, received by donation or purchase. They are usually manuscript volumes or rolls, or unbound material which can be bound or filed and which is not part of an archive or collection.

Most of the Library's literary, historical and antiquarian manuscripts may be found among the NLW Manuscript Series.

Among the early manuscripts, are:

- The Hendregadredd Manuscript (NLW MS 6680B)
- The De Grey Hours (NLW MS 15537C)
- Piers Plowman (NLW MS 733B)
- Beunans Ke (NLW MS 23849D)

Among the more recent manuscripts are:

- A letter in Ann Griffiths' handwriting (NLW MS 694D)
- Dylan Thomas' map of Llareggub (NLW MS 23949E)

A number of notable collections have been incorporated into the NLW Manuscript Series, including those of:

- Panton (NLW MSS 1970–2068)

- Mostyn (NLW MSS 3021–76 a 21238–54)
- Bourdillon (NLW MSS 5001–148)
- Llanover (NLW MSS 13061–184)
- Gwysaney (NLW MSS 17110–62)


- Mostyn (NLW MSS 3021–76 and 21238–54)
- Bourdillon (NLW MSS 5001–148)
- Llanover (NLW MSS 13061–184)
- Gwysaney (NLW MSS 17110–62)




Cronicl Elis Gruffudd / The Chronocle of Elis Gruffudd NLW MS 5276D f.9 (elg00028)

## CYFRES LLAWYSGRIFAU NLW EX

Mae'r dosbarth hwn yn cynnwys llawysgrifau na chynhwysir ymhlith Llawysgrifau NLW. Y mathau o lawysgrif a roddir yn y dosbarth hwn gan amlaf yw:

- cyfrolau o doriadau papur newydd
- llyfrau lloffion
- traethodau ymchwil
- papurau ymchwil

Parhad ydyw o gyfres gaeëdig a adwaenir fel 'Miscellaneous Volumes' (neu 'Misc.Vols', rhifau 1–415), ac fe ddechreua'r gyfres gyda NLW ex 416.

## RHOLIAU NLW

Casgliad amrywiol o 305 eitem sy'n cynnwys:

- rholiau achau, o'r 15fed i'r 20fed ganrif
- anerchiadau
- rholiau dwyreiniol
- llyfrau deilen palmwydd
- rhai eitemau heb fod yn llawysgrifau

Ers 1981 cynhwyswyd y rholiau hynaf a'r rhai mwyaf gwerthfawr a dderbyniwyd yn y gyfres llawysgrifau NLW, maint G.

Ceir hefyd yn y Llyfrgell ddwy gyfres bwysig o atgynyrchiadau o lawysgrifau, sef:

## FFACSIMILÏAU (NLW FACS)

Mae'r dosbarth hwn yn cynnwys ffotograffau, ffotostatau a llungopïau o lawysgrifau ac archifau mewn llyfrgelloedd ac archifdai, ac o eitemau sydd mewn dwylo preifat.

## NLW EX SERIES OF MANUSCRIPTS

This category includes manuscripts which are not included amongst the NLW Manuscripts. These manuscripts include:

- volumes of newspaper cuttings
- scrap books
- research theses
- research papers

This is a continuation of a closed series known as 'Miscellaneous Volumes' (or 'Misc. Vols', numbers 1–415), and the series begins with NLW ex 416.

## NLW ROLLS

A varied collection of 305 items, which includes:

- pedigree rolls, from the 15th to the 20th centuries
- orations
- eastern rolls
- palm leaf books
- some items that are not manuscripts

Since 1981 the oldest and most precious rolls have been incorporated in the NLW manuscript series, size G.

There are also in the Library two important series of manuscript reproductions, namely:

## NLW FACSIMILES

This class consists of photographs, photostats and photocopies of manuscripts and archives kept in other libraries and record offices, and of items which are in private hands.

## MICROFFILMIAU O LAWYSGRIFAU O DDIDDORDEB CYMREIG

Cnewyllyn y casgliad yw microffilmiau o lawysgrifau Cymraeg a llawysgrifau o ddiddordeb Cymreig sydd mewn llyfrgelloedd pwysig eraill.

Ar wahân i lawysgrifau'r Llyfrgell Brydeinig (NLW Film BL) a llawysgrifau Caerdydd (DC), mae'r deunydd yma i gyd yn gynwysedig yn y gyfres NLW Film.

## LLAWYSGRIFAU PENIARTH

Llawysgrifau Peniarth yw casgliad pwysicaf y Llyfrgell o lawysgrifau. Fe'i sefydlwyd gan Robert Vaughan (c.1592–1667), Hengwrt, Meirionnydd, a gasglodd i'w lyfrgell lawysgrifau mewn:

- Saesneg, e.e. The Hengwrt Chaucer (Peniarth MS 392)
- Lladin, e.e. Cyfraith Hywel Dda (Peniarth MS 28)
- Cernyweg, e.e. Beunans Meriasek (Peniarth MS105)

Diddordeb pennaf Vaughan serch hynny oedd y Gymraeg. Casglodd i Hengwrt nifer helaeth iawn o'n llawysgrifau Cymraeg pwysicaf, gan gynnwys:

- Llyfr Du Caerfyrddin (Peniarth MS 1), y llawysgrif Gymraeg gynharaf
- Llyfr Taliesin (Peniarth 2), sy'n cynnwys y farddoniaeth Gymraeg hynaf

## MICROFILMS OF MANUSCRIPTS OF WELSH INTEREST

The heart of the collection consists of microfilms of manuscripts in the Welsh language and manuscripts of Welsh interest which are in other important libraries.

Apart from the British Library manuscripts (NLW Film BL) and Cardiff manuscripts (DC), all this material is included in the NLW Film series.

## PENIARTH MANUSCRIPTS

The Peniarth Manuscripts form the most important of the Library's manuscript collections. The collection was established by Robert Vaughan (c.1592–1667), Hengwrt, Meirioneth, who gathered for his library manuscripts in the following languages:

- English, e.g. The Hengwrt Chaucer (Peniarth MS 392)
- Latin, e.g. The Law of Hywel Dda (Peniarth MS 28)
- Cornish, e.g. Beunans Meriasek (Peniarth MS 105)

Vaughan's main interest, however, was the Welsh language. He collected at Hengwrt a great number of our most significant Welsh language manuscripts, including:

- The Black Book of Carmarthen (Peniarth MS 1), the earliest manuscript in the Welsh language
- The Book of Taliesin (Peniarth MS 2), which includes the oldest Welsh verse



Dalen agoriadol Chaucer Hengwrt / The opening page of the Hengwrt Chaucer, Peniarth MS 392D

- Llyfr Gwyn Rhydderch (Peniarth MS 4), sy'n cynnwys fersiwn cynharaf Pedair Cainc y Mabinogi
- Brut y Tywysogion (Peniarth MS 20), y cronicl cynharaf o hanes Cymru

Diogelwyd y llawysgrifau yn Hengwrt am genedlaethau, ac ychwanegwyd atynt rai cyfrolau eraill tros y blynyddoedd. Pan fu farw Syr Robert Williams Vaughan o Hengwrt ym 1859, ac yntau heb etifedd, gadawodd y casgliad i'w gyfaill W. W. E. Wynne, a symudodd y llawysgrifau i lyfrgell Peniarth, Meirionnydd.

Prynwyd y cyfan gan Syr John Williams (1840–1926) ym 1904. Pan fu farw W. R. M. Wynne, mab hynaf W. W. E. Wynne, ym 1909, trosglwyddwyd y llawysgrifau o Beniarth i'r Llyfrgell Genedlaethol newydd yn Aberystwyth.

Yn 2010, cydnabuwyd pwysigrwydd a gwerth eithriadol llawysgrifau Peniarth gan Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) trwy enwi'r casgliad ar 'Restr Cof y Byd'.

Am ragor o hanes llawysgrifau Hengwrt-Peniarth, gweler *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1940–2003), cyf. I, tt. iii-xxiii

- The White Book of Rhydderch (Peniarth MS 4), which includes the earliest version of the Four Branches of the Mabinogi
- The Chronicle of the Princes (Peniarth MS 20), the earliest chronicle of Welsh history

The manuscripts were preserved at Hengwrt for generations, and some other volumes were added to them over the years. When Sir Robert Williams Vaughan of Hengwrt died in 1859, without an heir, he left the collection to his friend W. W. E. Wynne, who moved the manuscripts to the Peniarth Library, Meirioneth.

The whole collection was bought by Sir John Williams (1840–1926) in 1904. When W. R. M. Wynne, the eldest son of W. W. E. Wynne, died in 1909, the manuscripts were transferred from Peniarth to the new National Library at Aberystwyth.

In 2010, the Peniarth manuscripts were recognised by the United Nations Educational, Scientific and Cultural Organization (UNESCO) as being of outstanding value and importance, and the collection was added to the 'Memory of the World Register'.

To find out more about the history of the Hengwrt-Peniarth manuscripts, see the *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (Aberystwyth, 1940–2003), vol. I, pp. iii-xxiii

Am ddisgrifiadau o'r llawysgrifau unigol, gweler:

- llsgrau. 1–327 a 533–9 (llawysgrifau Cymraeg y casgliad): catalog J. Gwenogvryn Evans, *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (London, 1898–1910), cyf. I, tt. 297–1126
- llsgrau. 328–532 (llawysgrifau mewn ieithoedd heblaw'r Gymraeg gan fwyaf): disgrifiadau'r *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (1943–2003), cyf. I, tt. 1–22, ac eithrio nifer fechan o lawysgrifau na ddaethant i'r Llyfrgell ym 1909
- llsgrau. 540–61 a 'Llawysgrifau Hynafol Peniarth' (yr holl lawysgrifau na ddaethant i'r Llyfrgell ym 1909): catalog teipysgrif *Peniarth MSS: A Catalogue of Additional Manuscripts* (1990).

## LLAWYSGRIFAU CWRTMAWR

Dyma gasgliad personol John Humphreys Davies (1871–1926), Cwrtmawr, cyn-Brifathro Coleg y Brifysgol, Aberystwyth, ac un o gymwynaswyr mawr Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Mae'r casgliad yn cynnwys llawysgrifau:

- John Jones, 'Myrddin Fardd' (1836–1921)
- Peter Bailey Williams (1723–96)
- William John Roberts, 'Gwilym Cowlyd' (1828–1904)
- Daniel Silvan Evans (1818–1903)
- Teulu Richards, Darowen

For descriptions of individual manuscripts, see:

- MSS 1–327 and 533–9 (the collection's Welsh language manuscripts): J. Gwenogvryn Evans' catalogue, *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (London, 1898–1910), vol. I, pp. 297–1126
- MSS 328–532 (manuscripts mainly in languages other than Welsh): descriptions in *Handlist of Manuscripts in the National Library of Wales* (1943–2003), vol. I, pp. 1–22, other than a small number of manuscripts that did not come to the Library in 1909
- MSS 540–61 and the 'Ancient Peniarth Manuscripts' (all the manuscripts that did not come to the Library in 1909): typescript catalogue *Peniarth MSS: A Catalogue of Additional Manuscripts* (1990)

## THE CWRTMAWR MANUSCRIPTS

This is the personal collection of John Humphreys Davies (1871–1926), Cwrtmawr. He was Principal of University College, Aberystwyth and one of The National Library of Wales' greatest benefactors.

The collection includes the manuscripts of:

- John Jones, 'Myrddin Fardd' (1836–1921)
- Peter Bailey Williams (1723–96)
- William John Roberts, 'Gwilym Cowlyd' (1828–1904)
- Daniel Silvan Evans (1818–1903)
- the Richards family, Darowen

Trosglwyddwyd rhan gyntaf llawysgrifau Cwrtmawr i'r Llyfrgell Genedlaethol ym 1925 (llsgrau. 1–50), a throsglwyddwyd y gweddill (llsgrau. 51–1492) ar ôl marw J. H. Davies ym 1926.

Ymysg y llawysgrifau ceir rhai o waith:

- Elis Gruffydd, 'Y Milwr o Galais' (c.1490–c.1552) (Cwrtmawr MS 1D)
- William Salesbury (c.1520–?1584) (Cwrtmawr MS 3B)
- Richard Robert Jones, 'Dic Aberdaron', (1780–1843) (Cwrtmawr MSS 50E, 667B, 831A)
- John Harries (bu f. 1839), y dyn hysbys o Gwrtycadno (Cwrtmawr MS 97A)
- Robert Roberts, 'Y Sgolor Mawr', (1834–85) (Cwrtmawr MSS 131–2B, 133–4A, 135B, 136C, 138A, 139B, 741C)

Am ddisgrifiadau o'r llawysgrifau unigol, gweler:

- llsgrau. 1–50: catalog J. Gwenogvryn Evans, *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (London, 1898–1910), cyf. II, tt. 871-937
- llsgrau. 51–1000: pedair cyfrol deipysgrif *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts* (1980, 1993, 1994, 1996)
- rhestrir 51 o lawysgrifau cerddorol a gasglwyd gan J. H. Davies yn *A Catalogue of the Cwrtmawr Music Manuscripts* (2004)

The first part of the Cwrtmawr manuscripts was transferred to The National Library in 1925 (MSS 1–50), and the rest (MSS 51–1492) were transferred following the death of J. H. Davies in 1926.

Among the manuscripts are works by:

- Elis Gruffydd, 'The Soldier from Calais' (c.1490–c1552) (Cwrtmawr MS 1D)
- William Salesbury (c.1520–?1584) (Cwrtmawr MS 3B)
- Richard Robert Jones, 'Dic Aberdaron' (1780–1843) (Cwrtmawr MSS 50E, 677B, 831A)
- John Harries (died 1839), the soothsayer from Cwrtycadno (Cwrtmawr MS 97A)
- Robert Roberts, 'The Great Scholar' (1834–85) (Cwrtmawr MSS131-2B, 133-4A, 135B, 136C, 138A, 139B, 741C)

For descriptions of the individual manuscripts see:

- MSS 1–50: J. Gwenogvryn Evans's catalogue, *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (London, 1898–1910), vol. II, pp. 871–937
- MSS 51–1000: four volumes in typescript, *A Catalogue of the Cwrtmawr Manuscripts* (1980, 1993, 1994, 1996)
- 51 music manuscripts collected by J. H. Davies are listed in *A Catalogue of the Cwrtmawr Music Manuscripts* (2004)

## THE LLANSTEPHAN MANUSCRIPTS

## LLAWYSGRIFAU LLANSTEPHAN

Casgliad Llanstephan yw casgliad personol Syr John Williams, prif gymwynaswr y Llyfrgell Genedlaethol. Bu Syr John yn byw am flynyddoedd ym mhlasty Llanstephan, sir Gaerfyrddin.

Mae'r casgliad yn cynnwys:

- casgliad llawysgrifau Samuel Williams (c.1660–c.1722) a'i fab Moses Williams (1685–1742) a brynwyd gan Syr John o gasgliad Castell Shirburn ym 1899 (Llanstephan MSS 1–154)
- amryfal lawysgrifau eraill a gasglwyd gan Syr John, gan gynnwys rhai o lawysgrifau Lewis Morris (1701–65) a Walter Davies, 'Gwallter Mechain' (1761–1849) ( Llanstephan MSS 155–200)

Cyflwynwyd y casgliad i Lyfrgell Genedlaethol Cymru ym 1909. Ymysg y llawysgrifau mae:

- Brut y Brenhinedd (Llanstephan MS 1)
- Llyfr Coch Talgarth (Llanstephan MS 27)
- Llawysgrif Gutun Owain (Llanstephan MS 28)

Ymgorfforwyd llawysgrifau eraill o gasgliad Syr John Williams (gan gynnwys amryw a brynwyd ganddo yn arwerthiannau Syr Thomas Phillips) yng nghyfres Llawysgrifau NLW (rhifau 1–500).

Am ddisgrifiadau o lawysgrifau unigol yng nghasgliad Llanstephan, gweler catalog J. Gwenogvryn Evans, *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (London, 1898–1910), cyf. II, tt. 419-782.

The Llanstephan Collection is the personal collection of Sir John Williams, the main benefactor of The National Library of Wales. Sir John lived for many years at Llanstephan mansion, Carmarthenshire.

The collection consists of:

- the manuscripts of Samuel Williams (c.1660–c.1722) and his son, Moses Williams (1685–1742), bought by Sir John from the Shirburn Castle collection in 1899 (Llanstephan MSS 1–154)
- various other manuscripts collected by Sir John, including some manuscripts which belonged to Lewis Morris (1701–65) and Walter Davies ('Gwallter Mechain'), 1761–1849 (Llanstephan MSS 155–200)

The collection was presented to The National Library in 1909. Among the manuscripts are:

- Chronicle of the Kings (Llanstephan MS 1)
- The Red Book of Talgarth (Llanstephan MS 27)
- The Gutun Owain Manuscript
- (Llanstephan MS 28)

Other manuscripts from Sir John Williams' collection (including many that were bought by him at auctions of Sir Thomas Phillips' manuscripts) are in the NLW Manuscripts series (numbers 1–500).

For descriptions of individual manuscripts in the Llanstephan Collection, see J. Gwenogvryn Evans' catalogue, *Report on Manuscripts in the Welsh Language* (London, 1898–1910), vol. II, pp. 419-782.

## OTHER MANUSCRIPT COLLECTIONS

## CASGLIADAU LLAWYSGRIF ERAILL

Yn ogystal â chasgliadau a ymgorfforwyd yng nghyfres Llawysgrifau NLW mae casgliadau eraill o lawysgrifau sydd o bwysigrwydd tebyg a gedwir ar y cyd ag archifau perthnasol fel:

- Bodewryd
- Brogyntyn
- Castell y Waun
- Castell Coch, Powis
- Wynnstay

## LLAWYSGRIFAU CANOLOESOL

Ceir dros 300 o lawysgrifau canoloesol yn y Llyfrgell. Mae nifer ohonynt yng nghyfres NLW MSS, ond mae rhai hefyd yng nghasgliadau Peniarth, Llanstephan a Brogyntyn. Am ragolwg o'r casgliad gweler y trydydd atodiad i'r gyfrol *Guide to the Department of Manuscripts and Records* (1996), 195-8.

## Y DRYCH DIGIDOL

Mae tua75 o lawysgrifau'r Llyfrgell wedi eu digido' ac i'w gweld yn llawn ar Ddrych Digidol y Llyfrgell, gan gynnwys:

- Llyfr Du Caerfyrddin, y llawysgrif Gymraeg cynharaf
- Beunans Meriasek, drama mewn Cernyweg
- Cronicl Elis Gruffudd, y 'Milwr o Galais'
- Llythyr Ann Griffiths, yr emynydd
- Map Llareggub, Dylan Thomas

In addition to the collections incorporated in the NLW Manuscripts series there are other collections of manuscripts of similar significance kept alongside relevant archives such as:

- Bodewryd
- Porkington
- Chirk Castle
- Powis Castle
- Wynnstay

## MEDIEVAL MANUSCIPTS

There are over 300 medieval manuscripts in the Library. Many of them are in the NLW MSS series, but others are in the Peniarth, Llanstephan and Brogyntyn collections. For an overview of the collection, see the third apendix to the Guide to the Department of Manuscripts and Records (1996), 195-8.

## THE DIGITAL MIRROR

Around 75 of the Library's manuscripts have been digitised, and can be seen online on the Library's Digital Mirror, including:

- The Black Book of Carmarthen, the earliest surviving Welsh manuscript
- Beunans Meriasek, a play in Cornish
- The Chronicle of Elis Gruffudd, 'soldier of Calais'
- A letter from hymn-witer Ann Griffiths
- Dylan Thomas' map of Llareggub

Dyn y Sidydd yn Llawysgrif Feddygol Mostyn / Zodiac Man in the Mostyn Medical Manuscript, NLW MS 3026C (gut00030)

www.llgc.org.uk
gofyn@llgc.org.uk
enquiry@llgc.org.uk
t: 01970 632800